

## Cwestiynau a ofynnir yn aml – Môn Actif – Ailagor

### 1. Pryd fydd cyfleusterau hamdden yn agor?

Rydym yn agor yn ein canolfannau ar Ddydd Llun, Tachwedd 9fed. Mae'r niferoedd sydd yn cael mynediad wedi cyfyngu. Mae rhai o'r cyfleusterau sydd ar agor yn cynnwys ystafelloedd ffitrwydd, pyllau nofio a dosbarthiadau ffitrwydd. Mae rhai o'r adnoddau tu allan fel y caeau 3G hefyd am agor.

### 2. Pa safleoedd fydd yn ailagor eu cyfleusterau hamdden?

Mae'r safleoedd yn agor ar eu hamseroedd agor arferol, ond nodwch os gwelwch yn dda y bydd slotiau amser penodol ar gyfer ystafelloedd a dosbarthiadau ffitrwydd. Rhaid llogi pob sesiwn ar-lein ymlaen llaw <https://monactifonline.anglesey.gov.uk/bookings/>, a rhaid i bob cwsmer gadw at y canllawiau pellhau cymdeithasol. Rydym yn gobeithio y bydd darparu slotiau amser penodol i'n haelodau yn sicrhau tegwch i bawb.

Gofynnir i bob aelod lofnodi ffurflen gynefino ac ymwadiad newydd sy'n cynnwys canllawiau ynghylch Covid-19.

Canolfan	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul
Amlwch	8am – 9pm	8am – 9pm	8am – 9pm	8am – 9pm	8am – 8pm	9am – 3pm	9am – 3pm
Caergybi	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	9am – 4pm	9am – 4pm
Plas Arthur	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	6:30am – 9:30pm	9am – 4pm	9am – 4pm
David Hughes	5pm – 9:30pm	5pm – 9:30pm	5pm – 9:30pm	5pm – 9:30pm	5pm – 9:30pm	10am – 2pm	10am – 2pm

### 3. Pa weithgareddau hamdden fydd ar gael? (nodwch os gwelwch yn dda y gall yr isod newid a byddwn yn diweddarau gweithgareddau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru).

Bydd Amlwch, Caergybi a Plas Arthur yn cynnig - Ystafell ffitrwydd, dosbarthiadau ffitrwydd a nofio.

Bydd Canolfan Hamdden David Huhges yn cynnig ystafell ffitrwydd a dosbarthiadau ffitrwydd.

Bydd Amlwch, David Hughes a Plas Arthur yn cynnig defnydd or caeau pob tywydd.

Bydd y prif neuadd ar gael ym mhob canolfan yn ddibynnol ar y weithgaredd a niferoedd sydd yn mynychu.

### 4. Pryd fydd pyllau nofio yn ailagor?

Mae pob pwll nofio am agor o Tachwedd 9fed. Dim ond nifer gyfyngedig o gwsmeriaid fydd yn cael mynd i mewn i'r pwll ar unrhyw un adeg. Rydym yn cyfyngu'r niferoedd am resymau diogelwch. Mae plant a phobl ifanc 11 oed a drosodd ac yn aelodau yn cael mynychu sesiynau nofio cyhoeddus. Byddwn yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a Nofio Cymru, a rhaid i'r holl gwsmeriaid gadw at y canllawiau pellhau cymdeithasol.

## 5 Pryd fydd gwersi nofio yn dechrau i blant?

Rydym yn deall bod aelodau yn awyddus i ddychwelyd i'w gwersi. Rydym yn gweithio i ail-ddechrau gwersi nofio yn Ionawr 2021. Dylai pob aelod fod wedi derbyn e-bost erbyn hyn gyda rhagor o fanylion. Os nid ydych wedi derbyn e-bost yna gyrrwch e-bost i [monactif@ynysmon.gov.uk](mailto:monactif@ynysmon.gov.uk).

## 6. Pan fyddaf yn mynd i fy sesiwn nofio, a fydd angen i mi fod yn barod ar gyfer y traeth?

Bydd. Mae pob cyngor yn argymhell y dylech fod yn 'barod ar gyfer y traeth' fel eich bod yn treulio llai o amser yn yr ystafelloedd newid. Bydd 10 parth wedi'u dynodi yn yr ystafelloedd newid a bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn neilltuo un ohonynt i chi pan fyddwch yn cyrraedd.

## 7. Pryd fyddwch chi'n cynnig y sesiynau nofio am ddim i bobl dros 60 oed?

Cynnigir sesiynau nofio am ddim i bobl dros 60 oed fel y dangosir yn y tabl isod. Sylwch os gwelwch yn dda y bydd raid llogi'r sesiynau gan mai dim ond nifer gyfyngedig o bobl fydd yn cael defnyddio'r pwll ym mhob sesiwn.

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<b>Amlwch</b>			11:30 – 12:30		8:30 – 9:30
<b>Caergybi</b>	8:15 – 9:15				8:15 – 9:15
<b>Plas Arthur</b>		12:00 – 13:00		7:30 – 8:30	

## 8. A yw gwersi gymnasteg yn ailgyhwyn?

Rydym yn edrych i ail gychwyn gwersi gymnasteg cyn gynted a phosib. Mi fyddwn yn cadarnhau dyddiad ac yn cysylltu gyda cwsmeriaid unwaith rydym yn gwybod mwy.

## 9. A yw'r cyrtiau sboncen yn ailagor?

Byd y cyrtiau sboncen yng Nghaergybi yn unig yn ail agor ar Tachwedd 9fed, fodd bynnag dylech nodi bod y cyfyngiadau canlynol yn berthnasol:

- Ni ellir chwarae gemau cystadleuol oni bai bod y chwaraewyr yn byw gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys gemau cyfeillgar.
- Gall pobl o gartrefi gwahanol hyfforddi ar yr un cwrt er mwyn canolbwyntio ar ymarfer technegau gwahanol a datblygu eu sgiliau ond rhaid parchu rheolau cadw pellter cymdeithasol.
- Caniateir hyfforddi unigol.

- Caniateir hyfforddi gyda hyfforddwr ond rhaid parchu rheolau cadw pellter cymdeithasol.
- Dim mwy na dau chwaraewr ar y cwrt ar yr un pryd.
- Rhaid i'r holl ddefnyddwyr ddilyn y canllawiau diweddaraf gan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol bob amser.

#### **10. Pryd allaf chwarae badminton?**

Bydd clybiau cysylltiedig (affiliated) yn cael dychwelyd i chwarae Badminton yn ystod yr wythnos yn dechrau Tachwedd 9fed o dan yr amodau Corff Llywodraethol canlynol: (Nodwch ein bod ond yn derbyn llogiadau gan glybiau cysylltiedig ar hyn o bryd).

- Caniateir i 2 unigolyn (o wahanol gartrefi) chwarae gêm sengl gan y gellir cadw at bellter cymdeithasol.
- Caniateir i 4 unigolyn chwarae gêm ddwbl – gyda phob pâr o du mewn i'w cartrefi estynedig.
- Rhaid i'r holl ddefnyddwyr ddilyn y canllawiau diweddaraf gan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol bob amser.

#### **11. Beth fydd yr opsiynau ar gyfer aelodau blynyddol?**

Byddwn yn ymestyn yr aelodaethau blynyddol sydd wedi dod i ben yn ystod yr ail gyfnod cau am 16 diwrnod. Gellir gwneud hyn ym mhob canolfan hamdden.

#### **12. Beth fydd yr opsiynau ar gyfer pob cwsmer debyd uniongyrchol?**

Rydym wedi cyfathrebu trwy e-bost gyda cwsmeriaid debyd uniongyrchol. Oherwydd y cyfnod cau 16 diwrnod 'fire break' bydd pob cwsmer yn talu hanner ei taliad misol yn Tachwedd, cyn dychwelyd i bris llawn yn Rhagfyr.

#### **13. Ddarau mi ohirio fy aelodaeth debyd uniongyrchol yn ystod yr amser cau, ydwyf nawr yn medru adfer yr aelodaeth yna?**

Os ddarau chi ohirio eich aelodaeth yn ystod yr amser cau, yna fedrwch nawr roid eich enw ar restr aros drwy gysylltu hefo [monactif@ynysmon.gov.uk](mailto:monactif@ynysmon.gov.uk).

#### **14. A oes modd talu am weithgaredd unigol os ydych chi eisiau ddefnyddio'r cyfleusterau ond ddim eisiau ailddechrau eich aelodaeth?**

Dim ond aelodau all gael dosbarthiadau ymarfer corff mewn grŵp a gellir talu am slotiau yn yr ystafell ffitrwydd fesul gweithgaredd - trwy dalu a llogi ymlaen llaw ar-lein.

#### **15. A fydd yr ystafell ffitrwydd, dosbarthiadau a'r pwll nofio ar gael i'r rheini nad ydyn' nhw'n aelodau?**

Na fyddant. Byddwn yn agor ar gyfer aelodau yn unig ac yn parhau i adolygu'r sefyllfa o ran agor i bobl nad ydynt yn aelodau.

**16. A allaf ymaelodi?**

Fedrwch nawr roid eich enw ar restr aros drwy gysylltu hefo [monactif@ynysmon.gov.uk](mailto:monactif@ynysmon.gov.uk).

**17. A fydd yn rhaid i mi logi dosbarth / slot yn y gampfa neu'r pwll ymlaen llaw?**

Oherwydd pellter cymdeithasol bydd yn rhaid i ni gyfyngu ar nifer y bobl ar y safle. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gofyn i chi logi eich ymweliad ymlaen llaw. Mae'n ddrwg gennym na fydd modd i chi fynychu heb fod wedi llogi ymlaen llaw ac rydym yn diolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad yn hyn o beth.

**18. Sut gellir llogi dosbarth / slot yn y gampfa neu'r pwll ymlaen llaw?**

Gellwch logi ymlaen llaw yma <https://monactifonline.anglesey.gov.uk/bookings/>  
Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes mae'n bwysig bod aelodau'n cofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein a bod eich cyfeiriad e-bost cyfredol wedi'i gofrestru ar ein system gan y bydd hynny'n ffordd o ddilysu, ynghyd â'ch rhif cerdyn aelodaeth.

**19. A allaf gael cawod a defnyddio'r ystafelloedd newid?**

Na fedrwch. Ni fydd cawodydd ar gael ar hyn o bryd.

**20. A fydd loceri ar gael?**

Bydd rhywfaint o loceri ar gael ar gyfer y tymor byr ond rydym yn cynghori cwsmeriaid i ddod â dim ond hanfodion i'r ganolfan gyda nhw.

**21. A fydd y toiledau ar agor?**

Bydd nifer gyfyngedig o doiledau ar agor ym mhob Canolfan Hamdden a byddant yn cael eu glanhau'n drwyadl yn unol â rhaglen lanhau arbennig.

**22. Pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i sicrhau bod yr adeiladau'n ddiogel rhag Covid?**

Gallwch ddilyn y ddolen yma i weld ein fideo sy'n tynnu sylw at ein newidiadau (dolen fideo).

**23. Pa mor hir fydd y slotiau yn yr ystafell ffitrwydd?**

Bydd pob slot am awr. Mae'n hanfodol eich bod chi'n llogi cyn dod i'r ganolfan <https://monactifonline.anglesey.gov.uk/bookings/>.

**24. Pa ddsbarthiadau sydd ar gael?**

Gallwch weld yr holl ddsbarthiadau sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

**25. A fydd amserlen y dosbarthiadau'n newid yn y dyfodol?**

Bydd yr amserlen dosbarthiadau ffitrwydd cyfredol yn ei le tan mis Rhagfyr.

**26. A oes cyfyngiad ar faint o slotiau dosbarth / campfa y gellir eu llogi?**

Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiad ar faint o sesiynau neu ddosbarthiadau ystafell ffitrwydd y gellir eu llogi. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid os bydd y galw'n cynyddu oherwydd ein bod eisiau rhoi cyfle teg i bawb sydd eisiau mynychu.

**27. Faint fydd raid i mi dalu i fynychu dosbarthiadau ar sail Talu Fesul Tro – aelodau blynyddol yn unig?**

Gweithgaredd	Oedolion	Consesiynau
Dosbarth ffitrwydd - awr	£5.00	£3.80
Dosbarth ffitrwydd – 45 munud	£3.50	£2.50
Dosbarth ffitrwydd – 30 munud	£3.50	£2.50
Ystafell ffitrwydd	£5.00	£3.80
Nofio	£4.10	£2.50

**28. A all plant dan 16 oed fynd i'r ystafell ffitrwydd?**

Gallant. Gall cwsmeriaid 11-15 oed fynd i'r gampfa os ydyn' nhw'n aelodau, ond bydd angen iddynt gael eu goruchwyllo gan oedolyn (18 oed neu'n hŷn). Mae ymwadiad ym mhob canolfan ble mae modd i oedolyn cyfrifol ei arwyddo.

**29. A all y rheini dan 16 oed fynychu dosbarthiadau?**

Gallant. Gall cwsmeriaid 11-15 oed fynychu'r dosbarthiadau ond bydd angen iddynt gael eu goruchwyllo gan oedolyn (18 oed neu'n hŷn). Mae ymwadiad ym mhob canolfan ble mae modd i oedolyn cyfrifol ei arwyddo.

**30. A fydd matiau'n dal i gael eu darparu ar gyfer dosbarthiadau?**

Na fyddant. Am resymau hylendid ni fydd matiau ar gael i bobl eu defnyddio mewn dosbarthiadau ymarfer corff mewn grŵp. Bydd yn rhaid i aelodau sy'n dymuno defnyddio mat ddod â'u matiau eu hunain.

**31. A fyddwch chi'n cynnal unrhyw ddosbarthiadau awyr agored?**

Na fyddwn. Bydd pob un o'n dosbarthiadau dan do. Byddwn yn sicrhau bod y rheini sy'n cymryd rhan yn ein dosbarthiadau'n cadw pellter cymdeithasol.

**32. A yw'r Llecynnau Glaswellt Artiffisial ar gael i'w llogi?**

Ydi.

**33. Beth yw'r cyfyngiad ar y niferoedd ar gyfer gweithgareddau o dan do ac yn yr awyr agored?**

- Gall hyd at 30 o oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored (Fe ddylai'r rhif hwn gynnwys yr hyfforddwyr a swyddogion y gêm)
- Gall hyd at 15 o oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan do (Fe ddylai'r rhif hwn gynnwys yr hyfforddwyr).
- Mae plant o dan 11 oed wedi eu heithrio o'r uchafswm sy'n cael eu cyfrif mewn digwyddiad (tu mewn neu tu allan), fodd bynnag bydd nifer y plant a ganiateir i fynychu yn dibynnu ar gyfyngiadau'r adeilad.
- Bydd nifer y plant o dan 18 oed a ganiateir i ymgynnull at ddibenion datblygiad neu lesiant yn dibynnu ar gyfyngiadau'r adeilad.
- Ni fydd unrhyw un o dan 18 oed yn cyfri yn y nifer o 30 oedolyn a ganiateir i gyfarfod yn yr awyr agored felly gall 30 o oedolion a nifer diderfyn o bobl o dan 18 oed gyfarfod tu allan, fodd bynnag bydd hyn yn dibynnu ar gyfyngiadau'r cyfleuster sy'n cael ei ddefnyddio.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â [monactif@ynysmon.gov.uk](mailto:monactif@ynysmon.gov.uk)

#### **34. A ddylwn i ddod â thywel chwys gyda mi?**

Ni ddylai aelodau ddod â'u tyweli eu hunain gyda nhw i'r gampfa. Darperir chwistrell lanhau a rholyn glas.

#### **35. A fydd bwyd a diod ar gael?**

Ni fydd modd defnyddio'r ffynhonnau dŵr ar ôl ailagor. Bydd y caffis yng Nghanolfan Plas Arthur a Chanolfan Hamdden Amlwch yn parhau i fod ar gau ar hyn o bryd.

#### **36. A allwn ni fynychu fel grŵp / teulu?**

Medrwch, er bod raid i bob person logi ar wahân ymlaen llaw. Gofynnwn i chi barhau i gadw at y rheolau pellhau cymdeithasol sydd mewn grym yn ein campfeydd a'n stiwdios er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i'r holl gwsmeriaid wrth ddefnyddio ein cyfleusterau.

#### **37. Sut mae cofrestru wrth gyrraedd?**

Bydd staff ar gael i'ch cyfarwyddo ac, os bydd angen, bydd llinellau ciwio dynodedig wedi'u marcio'n glir. Bydd aelod o staff yn eich cofrestru. Nodwch os gwelwch yn dda y bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn gofyn i chi am eich manylion cyswllt diweddaraf yn ystod y broses gofrestru i'n cynorthwyo gyda'r broses Tracio ac Olrhain.

#### **38. A oes angen i mi wisgo gorchudd wyneb yn y gampfa neu'r dosbarth?**

Rhaid i bob aelod sy'n dod i ganolfannau hamdden Mon Actif o hyn ymlaen wisgo masgiau wyneb. Bydd rhaid i chi wisgo masg wrth ddod mewn i'r ganolfan hamdden hyd nes y byddwch wedi cyrraedd y gweithgaredd. Cewch dynnu'r masg wrth gymryd rhan yn eich gweithgaredd, e.e. nofio, ystafell ffitrwydd a dosbarth ffitrwydd. Bydd gofyn i chi wisgo'r masg ar ddiwedd eich sesiwn hyd nes y byddwch wedi gadael yr adeilad.

#### **39. Rwyf yn aelod ac yn byw mewn awdurdod sydd gyda cyfyngiadau symud (lockdown). Ydwi yn cael mynychu sesiynau yn eich canolfannau?**

Nac ydych, os yw eich awdurdod ble ydych yn byw hefo cyfyngiadau symud (lockdown), yna ni ddylwch ddefnyddio ein cyfleusterau ac bydd rhaid aros yn eich awdurdod. Mae hyn yn cynnwys pob gweithgaredd a sesiwn tu mewn ac thu allan.

Cysylltwch gyda [monactif@ynysmon.gov.uk](mailto:monactif@ynysmon.gov.uk) os gwelwch yn dda os oes gennych ragor o gwestiynau.